# Prentis Gweinyddu Busnes

## Proffil rôl

**Adrodd i:** Rheolwr Adnoddau Dynol / Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol

**Tîm:** Adnoddau Dynol/Cyllid

**Rheolwr Llinell:** Dim

**Cyflog:** Cyflog yn unol ag Isafswm Cyflog (/Byw) Cenedlaethol

### DIBEN Y SWYDD

Tra'n gweithio tuag at gymhwyster proffesiynol, byddwch yn cael profiad Gweinyddu Busnes o fewn Gwasanaeth cymorth (Cyllid ac Adnoddau Dynol). Byddwch yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i ddysgu a deall prosesau a gweithdrefnau a byddwch wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth gweinyddu effeithiol ac effeithlon. Byddwch yn cael cyfle i weithio yn y gwasanaethau cefnogi gan gynnig cefnogaeth i'r grŵp, gan roi cipolwg i chi o sut mae strwythurau cwmnïau gwahanol yn gweithio.

### DIMENSIYNAU RÔL

Byddwch yn astudio ar gyfer cyflawni Lefel 2 QCF* mewn Gweinyddu Busnes, gyda'r potensial i gyflawni hyd at lefel 3, dros fwyafswm o 36 mis. Bydd hyn yn cynnwys cwblhau nifer sefydlog o fodiwlau a chasglu a darparu tystiolaeth.

*Fframwaith Cymwysterau a Chredyd (yn disodli'r fframwaith NVQ)

### PRIF BERTHNASOEDD

**Allanol:** Ymgeiswyr swydd, cyflenwyr, hyfforddwyr, rhanddeiliaid a chwsmeriaid eraill

**Mewnol:** Y tîm Adnoddau Dynol, Tîm Cyllid, cydweithwyr ar bob lefel, tîm Arweinyddiaeth a'r tîm Gweithredol

### FFOCWS A PHRIF GYFRIFOLDEBAU

Byddwch yn gweithio'n agos gydag aelodau profiadol o'r tîm i ddysgu a darparu gwasanaeth gweinyddol effeithiol ac effeithlon.

Byddwch yn cefnogi cydweithwyr gyda thasgau gweinyddol ar draws ystod o weithgareddau a bydd gennych y sgiliau a'r profiad gofynnol i ennill cymhwyster proffesiynol.

Gan ddefnyddio’r sgiliau byddwch yn eu dysgu ‘yn y swydd’, byddwch yn diweddaru amryw o systemau drwy fewnbynnu data yn gywir a gwirio cofnodion. Mae’n bosibl y gofynnir i chi gefnogi’r tîm gydag adroddiadau, casglu data ac ymarferion dadansoddi data a bydd gennych y rhyddid i flaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.

Byddwch yn datblygu eich sgiliau cyfathrebu drwy ymateb i ymholiadau, cyfrannu at gyfarfodydd tîm a chysylltu gyda chydweithwyr ar draws y busnes.

Byddwch yn deall sut beth yw bod yn rhan o swyddogaeth gwasanaeth prysur, rhoi arweiniad a chymorth i weddill y busnes  ac mae’n bosibl y byddwch yn cynorthwyo  i reoli dyddiadur, archebu digwyddiadau neu ddysgu a chyfeirio cydweithwyr i ganfod y wybodaeth maent ei hangen.

Byddwch yn gweithio gyda chydweithwyr i ddatblygu dealltwriaeth o bolisïau a phrosesau sy’n allweddol i Adnoddau Dynol a Chyllid a bydd gennych gyfle i awgrymu gwelliannau neu ffyrdd newydd o weithio.

**Bydd gennych y grym i fod y gorau y gallwch fod ac yn ffynnu mewn gyrfa fydd yn agor drysau i’ch dyfodol.**

Creu cym
Creating communities to be proud of

# Manylion am yr unigolyn

## CYMWYSTERAU

| Hanfodol | Aseswyd gan: |
|---|---|
| TGAU Gradd C mewn saesneg a mathemateg neu uwch, neu gyfatebol | Application (A) |

***Sylwer: oherwydd y meini prawf Fframwaith Prentisiaeth, nid ydym yn gallu cynnig y swydd hon i ymgeiswyr gyda chymwysterau lefel 2 a 3 yn yr un maes neu faes tebyg (gweinyddu busnes). Bydd ymgeiswyr gyda gradd mewn maes gwahanol yn cael eu hystyried ar gyfer cymhwyster lefel 3 yn unig.***

## PROFIAD

| **Hanfodol** | **Aseswyd gan:** |
|---|---|
| Nid yw profiad yn hanfodol yn y swydd hon gan y byddwch yn derbyn arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant fel bo’r angen. | Application (A) |
| **Dymunol** | |
| Profiad o ddefnyddio pecynnau TG, fel Microsoft Word, Excel ac Outlook yn fantais | Application (A) |
| Profiad dilyn canllawiau, gweithdrefnau a pholisïau | Interview (I) |
| Profiad o gyfathrebu gydag eraill mewn swydd broffesiynol neu sy’n wynebu’r cwsmer | Interview (I) |
| Profiad mewnbynnu data a defnyddio systemau | Application (A) |
| Profiad o weithio mewn lleoliad Adnoddau Dynol neu Gyllid | Application (A) |

## GWYBODAETH A SGILIAU

| **Hanfodol** | **Aseswyd gan:** |
|---|---|
| Gallu ymddwyn yn broffesiynol a chynnal cyfrinachedd | Application (A) |
| Sgiliau TG i ddefnyddio swyddogaethau sylfaenol ar liniadur/llechen | Application (A) |
| Sgiliau cyfathrebu da gyda’r gallu i weithio fel rhan o dîm | Application (A) |
| Gallu ymrwymo i ddysgu rôl newydd a chwblhau fframwaith o weithgareddau i gyflawni cymhwyster proffesiynol | Application (A) |
| Rhoi sylw i fanylder a gallu gweithio’n gywir | Application (A) |
| **Dymunol** | |
| Sgiliau Cymraeg | Application (A) |
| Dealltwriaeth o brosesau Adnoddau Dynol a/neu Gyllid | Application (A) |

***Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl weithgareddau.***